Rhif: WG37274

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth cyllid i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20

Chwefror 2019

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-893-5

**Newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth cyllid i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20**

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Sefydliadau addysg uwch, darparwyr addysg uwch eraill ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad. |
| **Trosolwg** | Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *Newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth cyllid i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20.* |
| **Camau gofynnol** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid anfon cwestiynau am y ddogfen hon at:<br><br>Yr Is-adran Addysg Uwch<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: HEDConsultationsMailbox@llyw.cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth cyllid i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20<br>https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-12/proposed-changes-to-the-student-finance-support-package-in-the-2019-20-academic-year-consultation-document-1.pdf |

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 4

**Crynodeb** 4

**Ymatebion** 4

**Cwestiynau a themâu** 5

**Atodiad: Rhestr o ymatebwyr** 7

## Cyflwyniad

1. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad[1] ar newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth cyllid i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb

2. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Dyma'r newidiadau:

    - categori newydd o berson sy'n gymwys i dderbyn cymorth i fyfyrwyr – y rhai â chaniatâd Adran 67 i ddod i'r DU neu aros yn y DU; a
    - newidiadau i ddynodi cyrsiau gan ddarparwyr yn Lloegr.

3. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 19 Rhagfyr 2018 a 1 Chwefror 2019. Derbyniwyd deuddeg ymateb. Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r rhai a gyflwynodd sylwadau.

4. Derbyniwyd safbwyntiau amrywiol. Roedd pob un o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno'r newidiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi penderfynu cyflwyno'r pecyn yn unol â'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori.

## Ymatebion

5. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion wedi dod gan gyrff cynrychioladol a sefydliadau addysg uwch ('SAU') neu sefydliadau addysg bellach sy'n darparu cyrsiau addysg uwch. Hefyd, cafwyd ymatebion gan gorff rheoleiddio a chwmni preifat sy'n ymwneud â'r byd addysg. Mae Tabl 1 yn darparu crynodeb, ac mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A. Mae Atodiad B yn cynnwys yr ymatebion.

**Tabl 1: Ymatebion i'r ymgynghoriad gan wahanol fathau o ymatebwyr**

| | |
|---|---|
| Unigolion | 2 |
| Sefydliadau Addysg Uwch/Addysg Bellach | 4 |
| Cwmni preifat | 1 |
| Corff/grŵp cynrychioladol | 4 |
| Corff rheoleiddio | 1 |

[1] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/newidiadau-arfaethedig-i-r-pecyn-cymorth-cyllid-i-fyfyrwyr-yn-ystod-blwyddyn-academaidd-2019-20-dogfen-ymgynghori-1.pdf, Llywodraeth Cymru, 2019, WG36501

| Cyfanswm | 12 |
|---|---|

## Cwestiynau a themâu

6. Gofynnwyd pedwar cwestiwn. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynigion ac roedd ganddynt agwedd gadarnhaol at y polisïau sy'n cael eu cynnig. Arweiniodd yr ymatebion at nifer o themâu cyffredin, sy'n cael eu crynhoi isod.

**Cwestiwn 1**

Ydych chi'n cytuno y dylid ychwanegu categori preswylio newydd ar gyfer unigolion sy'n cael caniatâd i aros o dan Adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 at y rheoliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn fyfyrwyr cymwys at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?

### Caniatâd o dan Adran 67 a'r meini prawf preswylio tair blynedd

7. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid ychwanegu unigolion sy'n cael caniatâd i aros o dan Adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ('caniatâd adran 67') at y rheoliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

8. Roedd tri ymatebwr (y Brifysgol Agored, Prifysgol Caerdydd a Chyngor y DU ar gyfer Materion Myfyrwyr Rhyngwladol) yn anghytuno â'r cynnig y dylai unigolyn â chaniatâd adran 67 breswylio fel arfer yn y DU am dair blynedd cyn dechrau ei gwrs er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a statws ffioedd cartref. Awgrymwyd y dylid cyflwyno rheol breswylio sy'n debyg i'r rheol ar gyfer ffoaduriaid h.y. dim gofyniad tair blynedd.

**Cwestiwn 2**

Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig ar gyfer dynodi cyrsiau yn Lloegr?

9. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno â'r newidiadau ar gyfer dynodi cyrsiau o ganlyniad i gyflwyno'r Swyddfa Fyfyrwyr. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon:

- Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru na fyddai rhai darparwyr, gan gynnwys y rhai sy'n darparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr byddar o bosibl, yn cael eu dynodi.
- Awgrymodd Addysg Uwch Annibynnol (corff sy'n cynrychioli nifer o ddarparwyr preifat) y dylai'r broses o ddynodi cyrsiau fod yn haws trwy ddynodi SAU yn awtomatig os ydynt ar gofrestr y Swyddfa Fyfyrwyr, ac y byddai hyn yn lleihau llwyth gwaith.

10. Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru y bydd cyrsiau rhai darparwyr preifat yn cael eu dynodi'n awtomatig o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Nododd fod hwn yn safbwynt polisi gwahanol i'r hyn a gafwyd hyd yma, ond ychwanegodd na allai 'weld unrhyw ffordd o osgoi hyn' oherwydd y newidiadau a gyflwynwyd gan y Swyddfa Fyfyrwyr.

**Cwestiwn 3**

Eglurwch pa effaith, os o gwbl, y byddai'r polisi arfaethedig yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn benodol:

- unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y polisi arfaethedig;
- sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi er mwyn sicrhau na fyddai'n cael unrhyw effeithiau niweidiol neu er mwyn lleihau ei effeithiau niweidiol; a
- sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu er mwyn cynyddu ei effeithiau cadarnhaol.

11. Cytunodd pob un o'r ymatebwyr na fyddai'r polisi arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg pe bai'n cael ei gyflwyno.

**Cwestiwn 4.**

Hoffech chi godi unrhyw fater arall yn ymwneud â'n cynnig?

12. Codwyd dau fater ychwanegol.

**Ychwanegu rhagor o gategorïau preswylio**

13. Awgrymodd Cyngor y DU ar gyfer Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y byddai'n fanteisiol ystyried cynnwys rhai categorïau preswylio eraill yn y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, fel 'absenoldeb Calais' a darpariaeth ar gyfer y rhai sydd â mathau o ganiatâd cyfyngedig, sy'n cael eu rhoi gan y Swyddfa Gartref bellach yn hytrach na chaniatâd yn ôl disgresiwn.

**Graddau Carlam yn Lloegr**

14. Er nad oedd graddau carlam yn rhan o'r ymgynghoriad, cyfeiriodd un ymatebwr at effaith graddau carlam sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20 ar fyfyrwyr o Gymru, a chanlyniad y ffaith nad yw'r terfyn ffioedd yn cael ei gynyddu o ystyried bod ffioedd dysgu blynyddol yn fwy na £9,250.

## Atodiad A

## Rhestr o ymatebwyr

Dienw (2 ymateb)
Coleg Cambria
Prifysgol Caerdydd
Plant yng Nghymru
CCAUC
Addysg Uwch Annibynnol
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
Y Brifysgol Agored
Pearson
UKCISA
David J L Yewlett